# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd V.J. Bailey (Cadeirydd); Cynghorydd G.D.D. Carroll (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.M. Hanks, K.F. McCaffer, S.D. Perkes, A.R. Robertson a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L.O. Rowlands a E. Williams.

561 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

562 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr M.J.G. Morgan a N.C. Thomas.

563 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2021fel cofnod cywir.

564 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

565 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL: ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2022/23 – YMGYNGHORIAD (PGD) -.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad yn dweud mai hwn oedd pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar ddeg Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel), a gyhoeddwyd o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd). Roedd y Panel wedi mynegi'n gyson ac yn egnïol mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol nad oedd democratiaeth leol a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yn ddigost ac y dylid eu gwerthfawrogi i alluogi pawb i gymryd rhan. Roedd angen pennu lefelau

cydnabyddiaeth ariannol ar lefel sy'n ddigonol i annog amrywiaeth o bobl sy’n barod ac yn ddigon galluog i ymgymryd â llywodraethu lleol drwy rolau etholedig, penodedig neu gyfetholedig.

Ers 2009, barn y Panel oedd nad oedd cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig llywodraeth leol yng Nghymru wedi codi cyfuwch â mesurau chwyddiant na chymaryddion posibl eraill. Roedd y rhain yn cynnwys Mynegai Prisiau Manwerthu, Mynegai Prisiau Defnyddwyr, NJC (cyflogeion y sector cyhoeddus), Cyflog Byw Cenedlaethol (CBC), cyfraddau Cyflog Byw'r Sefydliad Cyflog Byw (LWF) <https://www.livingwage.org.uk/what-real-living-wage >, Aelodau Senedd Cymru, ASau a hefyd yr Arolwg Blynyddol o Enillion Fesul Awr (ASHE). Roedd y Panel o'r farn bod hyn wedi tanbrisio gwerth Cynghorwyr lleol etholedig ac mai nawr yw’r amser i adfer y cysylltiad ag ASHE fel y cymharydd mwyaf priodol.

Roedd pan demig Covid hefyd wedi rhoi pwysau digynsail ar Gynghorwyr a etholwyd yn lleol a gweision cyhoeddus. Wrth i Gymru ddod allan o'r pan demig, roedd mwy o ymwybyddiaeth bod angen i'r genedl ddefnyddio cronfa dalent amrywiol i ateb graddfa’r heriau parhaus sy'n wynebu'r genedl. Roedd angen i lywodraethu lleol ymgysylltu â phrofiadau a bywydau pobl leol.

Er y byddai'r newidiadau arfaethedig fel arfer yn dod i rym ar 1 Ebrill bob blwyddyn, o ystyried yr Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru sydd i fod i gael eu cynnal ar 5 Mai, 2022, barn y Panel oedd mai 9 Mai, 2022 oedd y dyddiad gorau i ddeddfu 'ailosod sylweddol' a buddsoddi mewn democratiaeth leol yng Nghymru gyda'r cynnydd arfaethedig mewn lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn dod i rym o'r dyddiad hwn.

Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd hefyd ei fod eisoes wedi anfon e-bost at bob Cynghorydd ar 6 Hydref, gyda’r Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Daliadau Cydnabyddiaeth (PACGA) a oedd yn cynnwys y penderfyniadau arfaethedig ar gyfer 2022/23, gan eu gwahodd i ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau, sef 26 Tachwedd 2021.

Dywedodd y Cynghorydd Robertson nad dyma'r amser ar gyfer cynnydd o'r fath yn ei farn ef o ystyried yr heriau ehangach a wynebir o ganlyniad i'r pandemig a'r pwysau ariannol ac economaidd a wynebir gan lywodraeth leol, trigolion lleol a sectorau eraill.

Fodd bynnag, nid oedd rhai Aelodau wrth gydnabod y materion a godwyd gan y Cynghorydd Robertson, yn eu barn hwy, yn drech na'r angen i edrych i'r dyfodol, annog mwy o amrywiaeth o fewn Llywodraeth Leol a'i bod hefyd yn anodd cydbwyso'r holl ffactorau yr oedd angen eu hystyried er mwyn denu ystod amrywiol o ymgeiswyr i rôl Cynghorydd. Nodwyd y byddai'r cynnydd arfaethedig yn cael ei gyflawni o'r adnoddau presennol.

Tynnodd y Cynghorydd Wilson sylw hefyd at elfennau eraill rôl cynghorydd a etholwyd yn lleol e.e., rolau a chyfrifoldebau llywodraethwyr ysgol a gwaith cymunedol lle na dderbynnir taliadau cydnabyddiaeth. I'r Aelodau hynny sydd â rôl "mainc gefn", heb unrhyw waith arall, y lwfans namyn yr Yswiriant Gwladol a chyfraniadau treth incwm, roedd y tâl yn gymharol fach.

Roedd y Cadeirydd, gan roi sylw i gynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft a'r sylwadau a wnaed yn benodol o ran amseru’r cynnydd arfaethedig mewn cydnabyddiaeth ariannol, yn atgoffa'r Pwyllgor mai cylch gwaith PACGA oedd gwneud penderfyniadau o'r fath ac o ganlyniad awgrymodd y dylid cymeradwyo'r ymateb drafft fel y'i nodir yn yr atodiad i'r adroddiad fel ymateb ffurfiol y Cynghorau i'r ymgynghoriad.

PENDERFYNWYD – BOD yr ymateb drafft fel y'i nodir yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo a'i anfon at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn y dyddiad cau ar gyfer ymgynghori, sef 26 Tachwedd 2021.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

O ystyried y wybodaeth a geir yn yr adroddiad, trafodaethau yn y cyfarfod ac er mwyn i'r PACGA gael gwybod am ymateb y Pwyllgor ar ran y Cyngor.

566 DIOGELWCH A CHEFNOGAETH CYNGHORWYR (PGD) -

Mae'r adroddiad yn nodi canllawiau defnyddiol fel bod Cynghorwyr yn deall y camau y dylent eu rhoi ar waith i ddiogelu eu hunain. Roedd Polisi Gwaith Unigol yr Awdurdod ynghlwm fel Atodiad i'r adroddiad yn berthnasol i gyflogeion a'i ddiben yw sicrhau bod systemau digonol ar waith i sicrhau Iechyd, Diogelwch a Lles Gweithwyr Unigol.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd sylw at Atodiad B i'r adroddiad a oedd yn manylu ar ganllaw yn ymwneud â Diogelwch Personol Cynghorwyr. Paratowyd y canllawiau gyda'r diben penodol o gynnig cyngor i gynorthwyo Cynghorwyr i gyflawni eu rolau'n ddiogel ac yn effeithiol. Nododd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fod yn rhaid i Awdurdod gefnogi gwaith ei Gynghorwyr a'i Aelodau Cyfetholedig Statudol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau ac roedd hyn yn cynnwys diogelwch ei Gynghorwyr.

Er bod dyletswydd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ariannu a darparu'r cymorth angenrheidiol i alluogi Cynghorwyr i gyflawni eu rolau'n rhesymol ac yn ddiogel, nid oedd yn ymarferol cyflwyno ceisiadau unigol gerbron y Pwyllgor, yn enwedig os bydd rhai ceisiadau'n geisiadau brys. Cynigiwyd felly y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 i ystyried unrhyw geisiadau i ddarparu cyllid ar gyfer mesurau diogelwch priodol gan Gynghorwyr.

Nodwyd ymhellach y byddai unrhyw gais o'r fath yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod, ond byddai disgwyliad bod mesurau diogelwch yn seiliedig ar gyngor gan yr Heddlu neu'r gwasanaethau diogelwch. Felly, byddai'r cyrff perthnasol fel arfer yn rhoi gwybod am unrhyw gymorth sy’n ofynnol a bydd unrhyw gyllid mewn perthynas â hynny yn rhesymol ac yn gymesur.

Roedd y Cynghorydd Carroll, gan gydnabod y gallai digwyddiadau fel hyn fod yn brin, yn falch bod y cyngor yn ystyried y mater o ddifrif. Dywedodd y Cynghorydd Wilson hefyd y byddai rhai Aelodau mewn wardiau un aelod mewn sefyllfa sy’n eu gwneud yn fwy agored i niwed nag eraill.

Roedd y Cynghorydd Perkes o'r farn ei bod yn bwysig i'r Aelodau ddilyn y mesurau angenrheidiol ac awgrymodd y dylid ail-gyfleu’r goblygiadau a'r cyngor i bob Aelod yn aml. Yn dilyn y drafodaeth,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Canllawiau'n cael eu cymeradwyo a'u rhoi ar wefan yr Awdurdod a'u e-bostio at bob Cynghorydd yn amodol ar Benderfyniadau (2) a (3) isod.

(2) Y DYLID argymell i gyfarfodydd nesaf y Cabinet a'r Cyngor, pan fo Cynghorydd mewn perygl personol neu mewn perygl o gael niwed sylweddol wrth gyflawni ei rôl, y dylid ystyried ariannu mesurau diogelwch priodol, yn enwedig mewn achosion pan fo'r heddlu neu wasanaethau diogelwch wedi cynghori mesurau o'r fath.

(3) Y DYLID argymell i gyfarfodydd nesaf y Cabinet a'r Cyngor y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 i ystyried a phenderfynu ar unrhyw gais am gyllid o'r fath.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Cytuno i'r Canllawiau ddarparu mecanwaith ffurfiol i'w roi ar waith at ddibenion diogelu.

(2&3) Cefnogi Cynghorwyr i gyflawni eu rolau etholedig amrywiol.

567 AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH – CYNLLUN GWEITHREDU (PGD) -

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2021 wedi ystyried adroddiad cychwynnol ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth fel a ganlyn (Cofnodion Rhif 298):

> (1) CYMERADWYO'R broses o wneud Datganiad "Cyngor Amrywiol" Bro Morgannwg fel a ganlyn: “Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn:
>
> (i) Dangos ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth;
>
> (ii) Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb;
>
> (iii) Ystyried darwahanu amseroedd cyfarfodydd y Cyngor a chytuno ar gyfnodau egwyl er mwyn cefnogi Cynghorwyr sydd ag ymrwymiadau eraill; a

(iv) Nodi cynllun gweithredu o weithgarwch cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

Felly, paratowyd Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth Drafft a oedd wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd y cynllun yn cynnwys manylion y gweithgareddau a gynlluniwyd i'w cynnal gan y Cyngor cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022 yn ogystal â rhai gweithgareddau y cynigiwyd eu cynnal yn dilyn yr etholiadau. Roedd yr amcanion yn y Cynllun Gweithredu wedi'u seilio ar y rhai a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD – BOD y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn cael ei gymeradwyo, a dylid cyfeirio'r adroddiad a'r Cynllun Gweithredu at gyfarfodydd nesaf y Cabinet a'r Cyngor yn argymell mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu arfaethedig yn ffurfiol a chefnogi'r gwaith sy'n gysylltiedig ag Agenda Amrywiaeth mewn Democratiaeth Llywodraeth Cymru.